**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol**

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 dros Microsoft Teams**

**1. Yn bresennol:**

Vikki Howells AS (Cadeirydd); Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd; Robin Lewis, Swyddfa Vikki Howells AS; Peter Slater, ICA Cymru; Steve Fothergill, Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol yr ICA; Chris Whitwood, Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol yr ICA; Phil O'Mara, Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol yr ICA; y Cynghorydd Gareth Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; y Cynghorydd John Spanswick, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; y Cynghorydd Tim Bowen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; y Cynghorydd Anthony Hunt, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; y Cynghorydd Lee Parsons, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; Danny Grehan, Swyddfa Heledd Fychan AS; Helen Parfitt, Swyddfa Peredur Owen Griffiths AS; Jordan Griffiths, Swyddfa Luke Fletcher AS.

**2. Ymddiheuriadau:**

Cafwyd ymddiheuriadau gan: David Rees AS; Delyth Jewell AS; Llyr Gruffydd AS; Huw Irranca-Davies AS; y Cynghorydd James Pritchard, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; y Cynghorydd Emma Dunning, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; y Cynghorydd Michelle Symonds. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

**3. Croeso**

Croesawodd Vikki Howells AS bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, a oedd wedi cytuno'n garedig i annerch y grŵp ar fater diogelwch tomenni glo.

**4. Diogelwch Tomenni Glo: Anerchiad gan Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd**

Gan gyfeirio at y Bil arfaethedig ar Ddiogelwch Tomenni Glo, disgrifiodd y Gweinidog sut mai diben y Bil yw cyflwyno dull cyson o reoli, monitro a goruchwylio tomenni glo nas defnyddir. Aeth ymlaen i egluro sut y bydd y Bil yn darparu awdurdod goruchwylio newydd i sicrhau dull cyson o reoli tomenni glo nas defnyddir. Byddai hyn yn cael ei ategu gan gynlluniau rheoli a gynhyrchir ar gyfer tomenni nas defnyddir a datblygu 'Cofrestr Asedau Cenedlaethol' newydd. Yna, rhoddodd grynodeb o'r camau a gymerwyd hyd yn hyn, a oedd yn cynnwys dyrannu £44 miliwn o gymorth grant dros 3 blynedd i gynorthwyo awdurdodau lleol gyda gwaith cynnal a chadw. Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod hefyd fod y bedwaredd rownd o archwiliadau tomenni ar fin cychwyn, a bod technolegau i fonitro tomenni yn parhau i gael eu treialu.

Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd bwysigrwydd defnyddio digwyddiadau ymgysylltu i dawelu meddyliau cymunedau yn dilyn digwyddiadau fel tirlithriad Tylorstown. Daeth â'i sylwadau i ben drwy annog pawb i ymateb i'r ymarfer ymgynghori presennol, sy'n cau ar 4 Awst 2022, gan ychwanegu mai'r gobaith oedd cyflwyno deddfwriaeth yn sesiwn hydref y Senedd.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog ac agorodd y drafodaeth gyda chwestiwn ar y manteision cymunedol, yn enwedig o ran cyflogaeth, yn sgil y rhaglenni cynnal a chadw ac adfer. Cadarnhaodd y Gweinidog, yn ogystal â chreu swyddi, fod potensial hefyd i greu defnydd tir newydd yn dilyn adferiad llawn, yn enwedig at ddibenion amwynder a hamdden.

Holodd Steve Fothergill, ICA, ynghylch rôl yr Awdurdod Glo yn y broses, o ystyried ei gyfrifoldeb dros faterion gwaddol, a gofynnodd sut yr oedd yr oedd Llywodraeth Cymru bellach yn gyfrifol am atebolrwydd ariannol ar gyfer diogelwch tomenni glo. Mewn ymateb dywedodd y Gweinidog fod y Llywodraeth yn mynnu mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ydoedd, a bod yn rhaid iddi gymryd camau i amddiffyn y cyhoedd. Pwysleisiodd hefyd nad oedd agwedd Llywodraeth San Steffan yn safbwynt credadwy, ac y manteisir ar bob cyfle i bwyso am newid barn.

Daeth y drafodaeth i ben gyda chwestiwn pellach gan y Cadeirydd ar y defnydd o'r system gynllunio i amddiffyn cymunedau rhag cynigion ffermydd gwynt sydd wedi'u lleoli ger tomenni glo, ac mewn ymateb cyfeiriodd y Gweinidog at y gweithdrefnau cyn-gynllunio a'r asesiadau amgylcheddol a diogelwch cysylltiedig.

Ar ran y cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am ei hanerchiad ar y mater pwysig o ddiogelwch tomenni glo ac am gymryd rhan yn y drafodaeth ddilynol.

**5. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021.**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod cyffredinol blynyddol a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021 yn gywir.

**6. Adroddiad Blynyddol**

Nodwyd cynnwys yr Adroddiad Blynyddol.

**7. Ethol Cadeirydd**

Cafodd Vikki Howells AS ei hethol yn Gadeirydd y Grŵp.

**8. Ethol Ysgrifennydd**

Cafodd Peter Slater, Cyfarwyddwr Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru, ei ethol yn ysgrifennydd y Grŵp.

## 9. Aelodau'r Grŵp

Cadarnhawyd y dylid anfon ceisiadau i ddod yn aelod o'r Grŵp Trawsbleidiol at yr Ysgrifennydd.

## 10. David White a Graham Thomas

Cytunwyd y dylai'r Ysgrifennydd ysgrifennu at y cyn-gynghorwyr, David White (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) a Graham Thomas (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf), yn diolch iddynt am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r Grŵp Trawsbleidiol dros y blynyddoedd.

## 11. Pynciau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

Cytunwyd y dylid ystyried cael cyfarfod ar y cyd rhwng y Grŵp Trawsbleidiol a'r UKSPF APPG (dan Gadeiryddiaeth Stephen Kinnock AS) a gwahodd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, i fod yn bresennol i drafod goblygiadau'r cyfyngder presennol rhwng San Steffan a Bae Caerdydd ar y broses o gyflwyno'r UKSPF.

Y pynciau posibl eraill i'w hystyried oedd cynnwys datgarboneiddio'r diwydiant dur, y prosiect arddangos hydrogen ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r trawsnewid i'r economi werdd (y Cynghorydd John Spanswick) a phobl ifanc a'r farchnad lafur (Vikki Howells AS).

Peter Slater

Ysgrifennydd

12 Gorffennaf 2022